



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol – Canllawiau i Rai sy'n Ymgeisio am Grant (Mawrth 2014)

Cynllun grantiau cyfalaf a weithredir gan Lywodraeth Cymru yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Rhaglen gymunedol ydyw ac mae'n agored i fudiadau'r sector cymunedol a gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Prif nod y rhaglen yw atal tlodi neu fynd i'r afael â thlodi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn gwneud hyn, fod angen i ni wella iechyd a lles; cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes; a rhagolygon economaidd aelodau unigol ein cymunedau mwyaf bregus.

Mae gwybodaeth bellach am **Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** gan Lywodraeth Cymru i'w chael yn:

<http://new.wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?skip=1&lang=cy>

Cofiwch ddarllen y canllawiau canlynol yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb.

Mae'n bosibl y bydd y canllawiau hyn yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau mai'r canllawiau yr ydych chi'n eu defnyddio yw'r fersiwn ddiweddaraf. Mae ar gael ar ein gwefan yn:

<http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/grants/community-facilities-programme/?skip=1&lang=cy>

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol?

Rydym yn chwilio am geisiadau sydd dan arweiniad y gymuned. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r prif ymgeisydd fod yn fudiad sector cymunedol neu wirfoddol. Rhaid i ni gael ceisiadau sy'n cynnwys partneriaid sector cyhoeddus, sector preifat neu drydydd sector. Bydd angen i'r ceisiadau ddarparu tystiolaeth bod i'r prosiect bwysigrwydd strategol i fynd i'r afael â thlodi yn y gymuned drwy enwi o leiaf un partner allweddol megis awdurdod lleol, un o raglenni mynd i'r afael â thlodi Llywodraeth Cymru (megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg neu Teuluoedd yn Gyntaf), bwrdd iechyd lleol, neu debyg. Gall partneriaid eraill fod yn undebau credyd, yn fusnes lleol megis swyddfa bost neu siop leol, cyngor tref neu gyngor cymuned, ayb. Rhaid i brosiectau hefyd allu dangos eu bod wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gymuned ei hun.

Nodyn 1:

Mae partner yn sefydliad rydych chi'n gweithio gydag ef i redeg eich cyfleuster a chyflenwi eich prosiect. Er enghraifft, gallai Cymunedau yn Gyntaf fod yn bartner cyflenwi a gallai'r Gronfa Loteri Fawr fod yn bartner os yw'n darparu arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect.

Fan leiaf, rhaid i'r prif ymgeisydd/mudiad arweiniol allu dangos ei fod:

- Yn fudiad sydd â chyfansoddiad neu set o reolau, wedi'u dyddio a'u llofnodi fel rhai sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cadeirydd, neu uwch ddeilydd swydd arall ar ran y Bwrdd neu'r Ymddiriedolwyr;
- Yn bwyllgor rheoli neu'n Fwrdd sydd ag o leiaf tri aelod nad ydynt yn perthyn;
- Yn fudiad sydd â chyfrif banc, yn ei enw ei hun, sydd gofyn cael o leiaf dau lofnodwr nad ydynt yn perthyn; ac
- Yn fudiad sy'n gallu darparu tystiolaeth i ddangos mai bychan iawn yw unrhyw elw a ddsberthir hy, wedi'i gyfyngu i elw'r cyfalaf a fuddsoddir gyda llog bychan iawn. Dylai'r polisi hwn gael ei ddisgrifio yng nghyfansoddiad neu reolau eich mudiad.

Nodyn 2:

Mae Rheoliadau Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CBC) 2005 yn darparu manylion y cap dosbarthu a roddir ar CBC cyfyngedig drwy gyfranddaliadau. Er enghraifft, ni chaiff CBC cyfyngedig drwy gyfranddaliadau roi difidend cyfanredol sy'n fwy na 35% o'r elw dosbarthadwy. Mae gwybodaeth bellach am hyn i'w gweld yn: www.bis.gov.uk/cicregulator .

Nodyn 3:

Rhaid i ymgeiswyr sydd â dros £150,000 o arian wrth gefn anghyfyngedig hefyd ddarparu gwybodaeth am bolisi arian wrth gefn y mudiad. Dylai'r

wybodaeth hon gynnwys a oes rhyw gymaint o'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi yn y prosiect ac os nad ydy, y rheswm pam.

Pwy nad yw'n gymwys i ymgeisio?

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau oddi wrth y mathau canlynol o sefydliadau; er y caniateir iddynt fod yn bartneriaid mewn unrhyw brosiect os yw'r cais dan arweiniad menter gymdeithasol neu fudiad sector gwirfoddol neu gymunedol:

- Awdurdodau lleol;
- Byrddau iechyd;
- Cynghorau tref a chynghorau cymuned;
- Cyrff cyhoeddus eraill; a
- Busnesau a sefydliadau sector preifat.

Meini prawf cymhwys ychwanegol

Rhaid i bob cais am gyllid fod yn gallu dangos bod gan y mudiad arweiniol yr hawl gyfreithiol i wneud y gwaith arfaethedig. Gellid gwneud hyn drwy brofi mai'r mudiad yw perchennog cyfreithiol yr adeilad sydd i'w adnewyddu neu'r tir lle bydd unrhyw estyniad neu adeilad newydd yn sefyll. Os oes morgais ar y tir neu'r adeilad, bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr hefyd ddangos bod darparwr y benthyciad yn cytuno i'r gwaith arfaethedig.

Os nad yw'r mudiad arweiniol yn berchennog ar y tir neu'r adeilad sydd i'w wella, yna rhaid i'r ceisiadau gynnwys tystiolaeth o brydles hirdymor (gydag o leiaf 10 mlynedd i fynd) am rent fforddiadwy. Bydd ar yr ymgeiswyr hefyd angen caniatâd ysgrifenedig y landlord i wneud y gwaith arfaethedig.

Nodiadau cyffredinol ar yr hyn y gellir ei ariannu dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grantiau cyfalaf yn unig yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Mae **Cyfalaf** yn golygu gwaith ffisegol, a ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith ffisegol; neu brynu offer (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill).

Nid yw'r cynllun yn darparu ar gyfer costau **Refeniw** gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun busnes, astudiaeth ymarferoldeb; prosiect dylunio'n unig; na chostau staff na chostau gweithredu eraill.

Ni fydd y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn ystyried ôl-geisiadau hy, lle mae'r gwaith eisoes wedi'i ddechrau cyn i'r cyllid gael ei ddyfarnu.

Meini Prawf Ariannu

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn agored i brosiectau ledled Cymru. Bydd angen i geisiadau ddangos bod i'r cyfleuster a fyddai'n cael ei wella **bwysigrwydd strategol i fynd i'r afael â thlodi** yn y gymuned leol a bod yn gallu profi bod y cyfleuster:

- Yn angenrheidiol ac yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned ac yn cynnig gwasanaethau na chânt eu dyblygu yn y cyffiniau neu y bydd yn gwneud hynny i'r dyfodol;
- Yn darparu gwasanaethau neu'n cynnal gweithgareddau sy'n atal neu'n lliniaru tlodi a'i effeithiau;
- Yn ailgyflwyno neu'n atal colli gwasanaethau cymunedol holl bwysig;
- Yn cael cefnogaeth y gymuned leol ac yn cael ei ddatblygu law yn llaw â hi;
- Yn cael cefnogaeth yr awdurdod lleol, y Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol neu bartner allweddol tebyg; ac
- Yn gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor.

Nodyn 4:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys yn natblygiad prosiectau a chynlluniau lleol sy'n cael cyllid gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Bwriedir i'r term **cynnwys y gymuned** olygu cysylltiad gan y bobl leol ar lefelau a ffurfiau amrywiol iawn, gan gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth, fel bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod am y prosiect arfaethedig;
- Grymuso'r trigolion lleol, gan feithrin eu sgiliau a'u hyder a drwy roi cyfleoedd iddynt wneud eu rhan; a
- Bod y trigolion lleol yn cyfrannu'n weithgar i'r prosiect, gan gynnwys bod yn rhan o gyfarfodydd gwneud penderfyniadau a strwythurau ffurfiol megis pwyllgorau rheoli.

Disgwylir i fudiadau weithredu'n gadarnhaol o blaid egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Rhaid i fudiadau beidio â goddef arferion sy'n gwahaniaethu – ee, hiliaeth, na rhywiaeth – na chaniatáu i adnoddau Llywodraeth Cymru gael eu defnyddio i wneud hynny.

Mae grantiau ar gael ar gyfer gwaith cyfalaf i ddarparu neu wella **cyfleusterau cymunedol** sy'n atal tlodi neu sy'n mynd i'r afael â thlodi drwy gynnig o leiaf un o'r gweithgareddau/gwasanaethau canlynol:

- Darparu, diogelu neu ailgyflwyno gwasanaeth cymunedol gwerthfawr megis mynediad i undeb credyd, swyddfa bost, llyfrgell, siop olaf yn yr ardal;
- Cynnal hyfforddiant sgiliau neu fath arall o hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster cymeradwy, lleoliadau gwaith neu gyfleoedd i wneud gwaith gwirfoddol sy'n gwella'r rhagolygon swyddi i unigolion;

- Cynnal gwasanaethau iechyd lleol megis archwiliadau iechyd i rai dros 50 oed, gweithgareddau byw'n iach neu ymarfer corff gan gynnwys gweithgareddau a fwriedir i bobl hŷn;
- Darparu mynediad i TG yn y gymuned, mynediad i fand eang a/neu hyfforddiant TG i gynorthwyo cynhwysiant digidol;
- Cynnal banc bwyd, cydweithfa fwyd, mynediad i wasanaethau cynghori neu weithgaredd o fath arall sy'n atal neu'n ceisio lliniaru effeithiau tlodi;
- Cynnal gweithgareddau a gyflenwir drwy un o raglenni mynd i'r afael â thlodi Llywodraeth Cymru megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg neu Teuluoedd yn Gyntaf;
- Annog cyd-leoli darparwyr gwasanaethau a grwpiau lleol er mwyn gwneud y cyfleuster yn fwy cynaliadwy er budd y gymuned;
- Gwneud y gorau o'r cyllid sydd ar gael drwy osgoi dyblygu gwasanaethau a gweithio gyda phartneriaid lleol eraill yn sector cymunedol, y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn gwella cyfleoedd y bobl leol mewn bywyd.

Beth yw'r grant mwyaf/lleiaf a geir drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol?

Bydd grantiau cyfalaf ar gael i uchafswm o £500,000. Gan fod y broses ymgeisio'n eithaf cymhleth a bod yn rhaid cyflwyno cynllun busnes llawn gyda'r ceisiadau (gweler **Beth yw'r broses ymgeisio?** isod), ni fyddwn fel arfer yn ystyried ceisiadau am grant dan £10,000.

A fydd gofyn i'm cais gael arian cyfatebol?

Cronfa grant dewisol yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Ni allwn sicrhau y bydd pob cais sydd â'r potensial o gael ei ariannu yn cael ei ariannu. Gwyddom y bydd mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Rhaglen na nifer y grantiau sydd ar gael. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ni o bosibl wrthod rhai ceisiadau da gan nad oes gennym arian digonol i ariannu pob un ohonynt. Mewn rhai achosion gellid bod yn bosibl cynnig grantiau wedi'u gohirio i brosiectau ardderchog os nad oes arian digonol ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod ei holl gynlluniau grant yn darparu'r gwerth gorau posibl am arian cyhoeddus. O'r herwydd byddem wrth gwrs yn hoffi gweld ceisiadau gyda chymaint o arian cyfatebol â phosibl gan fod hyn yn caniatáu i'r arian cyhoeddus fynd ymhellach. Gall yr arian cyfatebol fod mewn arian neu mewn nwyddau.

Ni fyddwn ond yn ystyried ceisiadau am gyllid 100% mewn amgylchiadau eithriadol lle gall y prosiectau ddangos nad oedd arian ar gael o unman arall. Gellir profi hyn drwy ddarparu prawf o geisiadau aflwyddiannus i gyrrff cyllido eraill fel rhan o'r cais i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Nodyn 5:

Caiff cyllid mewn nwyddau ei ddiffinio fel cyfraniadau i'r prosiect a roddir mewn nwyddau neu wasanaethau yn hytrach nag arian. Dylid rhoi'r rhain mewn gwerth ariannol pan gânt eu cynnwys fel arian cyfatebol. Er enghraifft, gellid ystyried amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol a gellid rhoi gwerth ariannol iddo.

Beth yw'r broses ymgeisio?

Rhaglen dreigl yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Mae hynny'n golygu na fydd unrhyw gylchoedd ymgeisio. Gallwch gyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg. Gall gwerthusiadau unigol fynd rhagddynt mor gyflym â phosibl, yn seiliedig ar ba mor gyflym y daw'r wybodaeth angenrheidiol i law.

Mae dau gam i'r broses ymgeisio; cam Mynegi Diddordeb a cham Cyflwyno Cais Llawn.

Mynegi Diddordeb

Bwriad y cam Mynegi diddordeb yw rhwystro mudiadau nad oes gan eu ceisiadau lawer o siawns o lwyddo rhag ymrwymo adnoddau i wneud cais llawn. Ffurflen fechan yw'r ffurflen Mynegi diddordeb a bydd yn profi a yw'r mudiad arweiniol yn gymwys; a yw'r cais yn cyd-fynd â meini prawf y cynllun a'r agenda mynd i'r afael â thlodi (gweler yr adran **Meini Prawf Ariannu** uchod a **Creu Cymunedau Cryf** drwy ddilyn y ddolen gyswllt ar dudalen un). Bydd gofyn i'r ymgeisydd hefyd enwi partneriaid allweddol a **dangos** eu bod yn cynnwys y gymuned yn y cam hwn. Bydd y ffurflen Mynegi diddordeb yn caniatáu i ymgeiswyr ddweud wrthym am y prosiect a'r hyn y mae'n gobeithio'i gyflawni mewn 500 gair neu lai.

Ar ôl llenwi'r ffurflen Mynegi diddordeb dylid ei chyflwyno i flwch post y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol communityfacilitiesproghelp@wales.gsi.gov.uk neu'n ysgrifenedig (gweler isod am y cyfeiriad post llawn). Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Byddwn yn ymdrechu i ddarparu penderfyniad ar bob ffurflen Mynegi diddordeb **cyn pen 30 diwrnod gwaith**. Gallai hyn gymryd mwy o amser os daeth nifer fawr ohonynt i law. Fel y nodir uchod, grant dewisol a ddarperir dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a gwyddom y bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â pha brosiectau i'w hariannu. Disgwylir na fydd gennym arian digonol i ariannu'r holl geisiadau sy'n addas i'w hariannu.

Cais Llawn

Rhoddir chwe mis i'r mudiadau a wahoddir i gyflwyno Cais Llawn gyflwyno cais manwl. Rhaid iddynt hefyd gyflwyno cynllun busnes diweddar gyda'r cais

yn ogystal â chyfrifon blynyddol diweddaraf y mudiad arweiniol (wedi'u harchwilio pryd bynnag y bo hynny'n bosibl). Rhaid i'r cynllun busnes gynnwys amcanestyniadau llif arian ar gyfer o leiaf tair blynedd. Bydd hyn yn caniatáu i ni asesu pa mor gynaliadwy yw'r cais yn y tymor canolir i'r hirdymor.

Caiff y Ceisiadau Llawn eu gwerthuso'n unigol yn erbyn y meini prawf a gyhoeddir fel yr amlinellir dan **Meini Prawf Ariannu**. Bydd swyddogion achos yn ymweld â phob prosiect cyn y gwneir argymhelliad i'w ariannu.

Darperir adborth i bob cais llawn aflwyddiannus. Bydd yr amserlen ar gyfer penderfyniadau ar gyfer y cam ymgeisio llawn yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae prosiectau unigol yn darparu gwybodaeth. Rhaid i geisiadau aflwyddiannus aros tri mis cyn ailymgeisio oherwydd y byddem yn disgwyl i newidiadau mawr fod yn ofynnol.

Mae'n bosibl y bydd yn dal angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol megis canlyniadau eu ceisiadau am arian cyfatebol neu geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Mae'r Ffurflen Gais Lawn yn darparu gwybodaeth bellach am y gofynion. Rhaid cyflwyno un copi o bob Cais Llawn mewn copi caled i'r cyfeiriad post isod. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nodyn 6:

Mae cynllun busnes yn golygu dogfen sydd:

- Yn darparu cefndir statws cyfreithiol yr ymgeisydd, ei nodau a'i brosesau llywodraethu;
- Yn rhoi tystiolaeth lawn bod gan y mudiad y capasiti, y profiad a'r sgiliau i gyflenwi'r prosiect
- Yn dadlau'r achos dros gael cyllid gan gynnwys:
 - a. disgrifiad llawn o'r prosiect;
 - b. unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd;
 - c. a yw'n bodloni Meini Prawf Ariannu'r Rhaglen;
 - d. nodi'n glir pwy y bwriedir iddynt elwa o'r prosiect;
 - e. pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud i'r cymunedau a'r unigolion fydd yn elwa ohono; a
 - f. pa ganlyniadau fydd y prosiect yn eu cyflenwi.
- Yn nodi pwy sy'n gysylltiedig â'r prosiect, ym mha rinwedd a sut y cawsent eu cynnwys;
- Yn nodi costau'r prosiect cyfan (refeniw a chyfalaf) ac yn dangos sut y caiff y costau hyn eu hadennill;
- Yn darparu cyfrifiadau manwl a thybiaethau ar gyfer holl gostau a refeniw'r prosiect;
- Yn cynnwys amcanestyniadau llif arian diweddar ar gyfer o leiaf y tair blynedd ariannol nesaf;
- Yn dangos sut y bydd y prosiect yn gynaliadwy ac yn cael effaith hirdymor; ac
- Yn manylu ar sut y mae'r mudiad yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Iechyd a Diogelwch a Diogelu Data.

Allbynnau a Chanlyniadau

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cyflenwi'r holl geisiadau llwyddiannus dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Rydym eisiau bod yn gallu nid yn unig gofnodi allbynnau ee, bod nifer o gyfleusterau cymunedol yn awr yn well ac yn addas ar gyfer y dyfodol; ond hefyd ganlyniadau hy, gweld effaith y gwelliannau ar y gymuned sy'n defnyddio'r cyfleuster.

Mae'r Ffurflen Gais lawn yn gofyn i chi ddweud wrthym beth sy'n digwydd yn eich cyfleusterau'n awr. Mae hefyd yn gofyn am wybodaeth am yr hyn a ddisgwyliwch ar ôl y gwelliannau, er enghraifft, a ydych chi'n disgwyl defnyddwyr ychwanegol, ynteu a gynhelir gweithgareddau newydd.

Mae allbynnau'n ymwneud â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a gyflenwir. Yn fras, mae hyn yn cynnwys materion megis nifer y cyfleusterau sydd wedi'u gwella, nifer y lleoedd hyfforddiant a ddarparwyd, neu'r nifer sy'n defnyddio man casglu undeb credyd. Caiff ei fesur fel arfer mewn unedau ariannol neu ffisegol.

Nid yw bob amser yn hawdd penderfynu pa allbynnau i'w cofnodi yn eich cais. Dylech gynnwys gwybodaeth am eich archebion rheolaidd ar gyfer y gweithgareddau a gyflenwir dan y tri maes eang canlynol:

- Iechyd a Lles: gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, dosbarthiadau coginio bwyd iach, rhoi'r gorau i ysmegu, gweithgareddau i osgoi unigedd neu grwpiau colli pwysau.
- Gwelliannau economaidd: gwasanaethau cynghori ar ddyledion, lleoliadau gwaith, gwasanaethau undeb credyd, clwb swyddi neu gyfleoedd i wirfoddoli.
- Dysgu Gydol Oes: hyfforddiant wedi'i achredu, hyfforddiant sgiliau sylfaenol, cyrsiau TG.

Datganiad mewn iaith syml, glir ynglŷn â pham ydy'ch chi'n gwneud rhywbeth ydy canlyniad. Dylai ddangos y newid y bwriadwch iddo ddigwydd yn y gymuned. Rhaid iddo fod yn ddatganiad y gellir ei ddefnyddio i fesur cynnydd. Dylai canlyniadau fod yn bethau y gellir eu cyflawni.

Dylech ymdrechu i ddangos effaith yr amrywiol weithgareddau a gynigir. Er enghraifft, faint o bobl sydd yn awr wedi cael y cyfle i ddychwelyd i waith o ganlyniad i hyfforddiant achrededig a gafwyd? Faint yn rhagor o bobl sy'n awr yn mynd i sesiynau ymarfer corff ac sy'n helpu i gyfrannu at eu hiechyd? Gallech hefyd o bosibl ystyried cynnwys astudiaeth achos sy'n dangos y gwahaniaeth y mae defnyddio'r cyfleuster wedi'i wneud i fywyd un o aelodau'r gymuned. Rhaid i chi gael caniatâd yr unigolyn i gynnwys ei fanylion.

Caiff yr holl geisiadau llwyddiannus eu monitro am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Ffotograffau

Mae ffotograddau sy'n dangos y cyfleuster o'r tu mewn a'r tu allan yn ddefnyddiol iawn wrth werthuso a dylid eu cyflwyno os yw hynny'n bosibl. Copïau caled fyddai orau nid copïau electronig.

Cymorth Gwladwriaethol – A yw'r gweithgareddau masnachol yn gymwys am gefnogaeth?

Caiff pob cais i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ei asesu yn erbyn y Meini prawf cymorth gwladwriaethol cyn y gwneir argymhelliad i ariannu.

Mae arian cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau economaidd a gynhelir gan fudiadau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â statws elusennol, yn cael ei reoli gan reolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r rheolau hyn yn caniatáu symiau bychan o gymorth dan y Rheoliad de minimis, sydd ar hyn o bryd wedi'i osod ar dan €200,000 dros gyfnod tair blynedd ariannol dreigl.

Os ydym yn amau y byddai'r cyllid yn gyfystyr â Chymorth gwladwriaethol ac nad yw'r Rheoliad de minimis yn berthnasol, yna gallai prosiectau hefyd gael eu hariannu gan ddefnyddio'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol, sy'n rhoi sicrwydd ar gyfer cymorth grant a fwriedir yn benodol ar gyfer creu cyflogaeth neu hyfforddiant.

Os oes ar eich prosiect angen sicrwydd ynghylch cymorth gwladwriaethol yna byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses werthuso i drafod.

Caffael

Rhaid i unrhyw waith sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflenwi prosiect gael ei gaffael yn briodol a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl brosesau caffael yn deg, yn agored ac yn cael eu cynnal mewn modd sy'n foesol, yn gynaliadwy, yn atebol ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau gweithdrefnol, cyfreithiol a rhyngwladol.

Bydd Llywodraeth Cymru eisiau gweld tystiolaeth o'r broses gaffael wrth werthuso'r cais llawn.

Safonau Adeiladu Cynaliadwy

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod y gefnogaeth a gynigiwn a'r penderfyniadau a wnawn am fuddsoddiadau yn rhoi atebion cynaliadwy hirdymor.

Rydym yn mynnu bod yr holl adeiladau **newydd** a gefnogir gennym yn bodloni ein safonau adeiladu cynaliadwy.

Ar gyfer datblygiad nad yw'n ddatblygiad preswyl, gyda rhai eithriadau i adeiladau llai, rhaid cyrraedd safon ardderchog BREEAM sef Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, neu safon cynllun sicrhau ansawdd cyfatebol.

Ym mhob adeilad **newydd** dylai o leiaf 10% o gyfanswm gwerth y deunyddiau a ddefnyddir fod yn ddeunyddiau neu'n gynhyrchion sydd wedi'u hailgylchu neu sy'n cael eu hailddefnyddio.

Os ydych yn ymestyn, yn addasu neu'n adnewyddu adeiladau, nid yw'r uchod yn ofynnol, ond mae arnom angen ateb sy'n sicrhau effeithlonrwydd ynni.

Mae mwy o wybodaeth am hyn i'w weld yn:

<http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/design/standards/?skip=1&lang=cy>

A oes help ar gael i mi lenwi'r cais?

Mae'n bosibl y gallech gael cefnogaeth gan eich partner(iaid) allweddol. Gellir cyfrif hyn fel arian cyfatebol mewn nwyddau. I gael diffiniad o Mewn Nwyddau gweler Nodyn 3 uchod.

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gallu darparu cyngor ar gyllid. Er na allant sicrhau cefnogaeth ddatblygu i bob ymgeisydd fe wnânt roi cymaint o help ac amser ag y mae eu hadnoddau'n caniatáu.

Ewch i wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddod o hyd i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol:

<http://www.wcva.org.uk/members-partners/county-voluntary-councils?seq.lang=cy-GB>

A fydd fy nghais yn cael ei drin yn gyfrinachol?

Byddwn angen trafod eich cais gydag eraill yn Llywodraeth Cymru ee, caiff ceisiadau am brosiectau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf eu trafod gyda'r Timau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn trafod eich cais gyda'r partneriaid allweddol yr ydych wedi'u nodi yn eich cais ee, eich awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol. Bydd gwybodaeth am geisiadau llwyddiannus hefyd yn cael ei defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd.

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae gan bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddyletswydd mewn amgylchiadau penodol i

gadarnhau os gofynnir iddynt a yw gwybodaeth benodol ganddynt ynghyd â dyletswydd i ddatgelu'r wybodaeth honno.

Pryd byddaf fi'n gwybod canlyniad fy nghais?

Byddwn yn cydnabod derbyn y ffurflenni Mynegi diddordeb a'r Ceisiadau llawn ac yn cadarnhau, gyda'r ffurflenni Mynegi diddordeb, y dyddiad y gallwch ddisgwyl ymateb. Hysbysir ymgeiswyr o ganlyniad ceisiadau llawn cyn gynted â phosibl. Ymwelir â phob prosiect yn ystod y broses werthuso. Bydd yr amserlen ar gyfer yr ymweliad hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n cael eu gwerthuso ar y pryd ac ar ba mor gyflym y mae prosiectau unigol yn gallu darparu gwybodaeth.

Gyda phwy y gallaf fi gysylltu?

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol defnyddiwch flwch post y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn communityfacilitiesproghelp@wales.gsi.gov.uk neu fel arall cysylltwch â ni fel isod:

Nesta Doughty – Gogledd Cymru 0300 062 5627 Mae Nesta yn siarad Cymraeg	Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys, Wrecsam
Helen Brown – Gorllewin Cymru 03000 628265	Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe.
Mike O'Shea – De-ddwyrain Cymru 03000 628612	Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Mynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg.
Lisa Clarridge – os nad yw'r uchod ar gael 03000 628307	

Cyfeiriad Post

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol
Is-adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ